O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2017 Rhif 616 (Cy. 140)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A465 a Thraffordd yr M4 (Cyfnewidfa Llandarcy a'r ffyrdd sy'n arwain ati, Castell-nedd Port Talbot) (Terfynau Cyflymder 50 mya a 40 mya Dros Dro) 2017

*Gwnaed* *20 Ebrill 2017*

*Yn dod i rym* *21 Ebrill 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni a Thraffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r drafford oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1),(4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Ebrill 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 a Thraffordd yr M4 (Cyfnewidfa Llandarcy a'r ffyrdd sy'n arwain ati, Castell-nedd Port Talbot) (Terfynau Cyflymder 50 mya a 40 mya Dros Dro) 2017.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo a pharagraff

30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi eu rhoi i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A465 Rhaglan i Lamymddyfri ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach nag 50 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a’r draffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Atal Dros Dro**

**5.** Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974(**2**), i’r graddau y maent yn gymwys i’r darnau o’r draffordd a bennir yn Atodlen 2, drwy hyn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

(2) O.S. 1974/502

### Cymhwyso

**6.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Ebrill 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 50 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Llandarcy hyd at bwynt 410 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Llandarcy.

### ATODLEN 2
### Terfynau Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin y drafffordd wrth Gyffordd 43.

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain y drafffordd wrth Gyffordd 43.

Cerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Llandarcy (Cyffordd 43).

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Llandarcy (Cyffordd 43) hyd at bwynt 50 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Llandarcy.